Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Trefniadau ar gyfer ysgolion ym mis Medi** |
| **DYDDIAD** | **9 Gorffennaf 2020** |
| **GAN** | **Kirsty Williams, Gweinidog Addysg** |

Rwyf wedi cadarnhau heddiw y bydd pob disgybl yn gallu dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi.

Roedd Grŵp Cynghori Technegol Cymru, sy'n rhoi cyngor gwyddonol a thechnegol i'r Llywodraeth yn ystod argyfyngau, yn argymell bod ysgolion "*yn bwriadu agor ym mis Medi gyda 100% o ddisgyblion yn cyflwyno'n gorfforol ar safleoedd ysgolion, yn amodol ar ddirywiad cyson a graddol ym mhresenoldeb covid-19 yn y gymuned."*

Mae'r papur sy'n cynnwys y cyngor hwn wedi'i gyhoeddi heddiw.
https://llyw.cymru/y-grwp-cyngor-technegol-cyngor-ar-ddychwelyd-ir-ysgol

Bydd tymor yr Hydref yn dechrau ar 1af Medi a dylai ysgolion sy'n gallu darparu ar gyfer pob disgybl o ddechrau'r tymor wneud hynny.

Bydd cyfnod o hyblygrwydd o ran cydnabod y bydd ysgolion o bosibl am ganolbwyntio ar grwpiau blwyddyn blaenoriaeth, megis y rhai sy'n newydd i ysgolion uwchradd, y rhai sy'n sefyll arholiadau yr haf nesaf neu'r rhai mewn dosbarthiadau derbyn. Bydd hyn hefyd yn caniatáu amser, hyd at bythefnos, ar gyfer unrhyw gynllunio ac ad-drefnu.

Byddaf yn cyhoeddi'r canllawiau gweithredol a dysgu diwygiedig ar gyfer mis Medi yr wythnos nesaf. Mae swyddogion addysg y Llywodraeth yn cael eu cefnogi yn y gwaith hwn gan awdurdodau lleol, penaethiaid, swyddogion iechyd y cyhoedd, undebau athrawon ac ymarferwyr addysg.

Rwyf hefyd wedi amlinellu cynlluniau i sicrhau bod £ 29m ar gael i ' recriwtio, adfer a chodi safonau ' yn ysgolion Cymru mewn ymateb i'r effaith y mae'r pandemig yn dal i'w gael.

Mae fy swyddogion hefyd yn gweithio gyda cholegau Addysg Bellach i gefnogi dychweliad ym mis Medi. Bydd manylion pellach yn cael eu cyhoeddi maes o law.